Munud i Feddwl

Cyfrinach Blwyddyn Newydd

Beth am i ni chwarae gêm fach am funud?

I ddechrau, dewiswch rywun o blith y byw y buasech yn hoffi cael bod. Cewch amser i hel meddyliau ... ... Wedi dewis? Ydych chi'n hapus â'ch dewis?

Awn ymlaen! Wrth ddewis 'bod' y person yma, rhaid ysgwyddo nid dim ond y llwyddiant, y gallu, y ddawn, y cyfoeth a phethau 'da' tebyg, ond hefyd y gofid, y trwch o ddisgwyliadau a chyfrifoldebau, a'r holl bethau a phobl sydd yn troi o gwmpas eich dewis. Cymerwch eiliad neu ddwy i feddwl am y pethau hyn ... ...Ydych yn hapus a'ch dewis o hyd?

Gêm wael yw hon! Digon!

Oni fuom yn chwarae'r gêm wirion hon yn rhy aml, ac oni fu ein dewis o bwy yr hoffem gael 'bod' yn drwm o 'fan gwyn fan draw'! Rhaid bod hwn (neu hon) yn cael y busnes anniben o fyw yn haws na mi, gan fod ei f(b)ywyd ef (neu hi) cymaint gwell na'n bywyd ni" Mae hwn (hon) mor sicr ei c(h)erddediad, mor ysgafn ei c(h)am, mor hyderus ei (h)osgo! Buasai pethau'n well pe bai fi ond yn cael bod yn hwn (hon). 'Heb ei fai, heb ei eni' meddai'r ddihareb; gellid yn hawdd ddigon dweud 'Heb ei drafferth, heb ei eni'. Mae gan bawb eu gofidiau, eu rhwystredigaethau; mae gan bob un ei ofalon a'i ofidiau.

Fel pawb arall, mae gen i fy ngofidiau, trafferthion a rhwystredigaethau. Mae cymorth i fyw yn hyn, gan mae ein gofidiau, trafferthion a rhwystredigaethau ni ydynt. Ein heiddo ni ydynt, a dyma sydd allweddol bwysig. Wrth gael ein llorio'n gyson ganddynt, ac wrth godi drachefn a thrachefn ar ein traed, dysgwn pwy ydym, a phwy sydd inni'n gefn a chymorth. Mae haearn caled y pethau hyn yn hogi haearn ein byw, daw min ar ein ffydd o'u herwydd.

Er gwybod mai gêm wirion yw hon, mae'n hawdd syrthio i'r arfer o'i chwarae'n gyson gan ein bod yn gallu anghofio gofid rhywun arall yn hawdd, ond byth ein gofid ein hunain. Ym mhlygion y flwyddyn newydd mae llawenydd a dathlu, gofid a galar. Awn iddi'n anfodlon hyderus! Mae Duw yn ein caru - dyma hanfod ein hyder; ond, mae Duw yn gwybod beth y gallem fod ac, o'i gariad, fe'n cymell a'n cymorth i garu'r hyn yr ydym er mwyn cael bod yr hyn y bwriadwyd i ni fod. Dyma wraidd ein hanfodlonrwydd! Dyma baradocs rhyfedd ffydd! O dderbyn ein hunain fel ag yr ydym, gallwn newid yr hyn ydym!

Derbyniol ydym gan Dduw, er mae cwbl annerbyniol ydym. Derbyniwn ein derbyniad! Dyna gyfrinach Blwyddyn Newydd Dda! *OLlE*

4 Ionawr 2012